# Adolygiad Dilynol o Ofal Sylfaenol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4606A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 6

Argymhellion 8

Adroddiad manwl

Rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith 10

Capasiti i gyflawni cynlluniau gofal sylfaenol 15

Gweledd gofal sylfaenol a ffocws arno ar lefel y Bwrdd 17

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 21

Atodiad 2 – Crynodeb o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion archwilio a wnaed gennym yn 2018 22

Atodiad 3 – Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 26

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Gofal sylfaenol yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'r mwyafrif o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae'n cwmpasu ystod eang o wasanaethau, a ddarperir yn y gymuned gan ystod o ddarparwyr, gan gynnwys Meddygon Teulu, Fferyllwyr, Deintyddion, Optometryddion, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol.

2 Yn 2018-19, fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol adolygu gofal sylfaenol ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, gyda ffocws penodol ar wasanaethau meddygon teulu. Canolbwyntiodd y gwaith hwnnw ar gynllunio strategol, buddsoddi, y gweithlu, goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth, a pherfformiad.

3 Canfu ein Hadolygiad o Ofal Sylfaenol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn 2018[1] fod gan y Bwrdd Iechyd gynllun cadarn ar gyfer gofal sylfaenol a'i fod yn gwneud cynnydd rhesymol tuag at roi elfennau allweddol o'r weledigaeth genedlaethol ar waith. Roedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau goruchwylio cryf ac roedd ei berfformiad yn erbyn rhai dangosyddion gofal sylfaenol uwchlaw'r cyfartaledd. Fodd bynnag, roedd mwy o gyfle i godi proffil gofal sylfaenol, symud mwy o adnoddau tuag at ofal sylfaenol, a mynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu.

4 Mae'r dirwedd ar gyfer gofal sylfaenol yng Nghymru wedi newid ers ein hadolygiad gwreiddiol yn 2018. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol - Cymru Iachach. Mae'r cynllun yn amlygu rôl hollbwysig gofal sylfaenol o ran helpu i wireddu'r uchelgais i greu dull system gyfan ddi-dor gyda gwasanaethau wedi'u dylunio o amgylch pobl, yn seiliedig ar eu hanghenion, gan eu cynorthwyo i gadw'n iach ac nid dim ond darparu triniaeth pan fyddant yn mynd yn sâl. Mae hyn yn golygu bod mwy o wasanaethau a oedd yn draddodiadol yn cael eu darparu mewn ysbyty'n cael eu symud i mewn i'r gymuned i ddarparu gofal gartref neu'n agosach at adref i dynnu pwysau oddi ar ysbytai a lleihau'r amser y mae pobl yn aros cyn cael eu trin.

5 Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol[2] yn disgrifio nodau'r rhaglen sydd wedi'u bwriadu i roi cymorth i gyflawni cyfraniad gofal sylfaenol i 'Cymru Iachach'. Eir ar drywydd y rhain trwy chwe ffrwd waith y disgwylir i fyrddau iechyd eu rhoi ar waith wedyn ar lefel leol:

- canolbwyntio ar atal 'salwch' a chyflawni llesiant;
- datblygu mynediad 24/7 at wasanaethau;
- manteisio ar ddata a thechnolegau digidol;

[1] Fe gynhaliwyd ein hadolygiad yn 2018 cyn trosglwyddo Pen-y-bont ar Ogwr i'r Bwrdd Iechyd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gynt (sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe bellach) ym mis Ebrill 2019.

[2] Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yw ymateb a chyfraniad Cymru Gyfan gofal sylfaenol i 'Cymru Iachach'.

- cryfhau’r gweithlu a datblygu sefydliadol;
- gwella cyfathrebu ac ymgysylltu; a
- datblygu gweledigaeth ‘ar lefel clystyrau’ a galluogi trawsnewid gwasanaethau.

6 Ym mis Chwefror 2023, nododd y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol, sy’n goruchwylio’r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo ar gyflymder amrywiol yn ardal pob bwrdd iechyd. Ochr yn ochr â hyn, ceir pryderon ehangach ynghylch gwelededd gofal sylfaenol a’r ffocws arno ar lefel Byrddau, yn ogystal â chapasiti Timau Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog o fewn byrddau iechyd i gyflawni blaenoriaethau sefydliadol.

7 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dechrau ar raglen uchelgeisiol o ddiwygio contractau ar draws y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth, Fferylliaeth Gymunedol ac Optometreg i:

- sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol yn gynaliadwy;
- gwella mynediad cleifion at wasanaethau gofal sylfaenol;
- atgyfnerthu’r ffocws ar ansawdd ac atal;
- galluogi trefniadau gweithio mewn clystyrau i gynllunio a darparu gwasanaethau; a
- chryfhau’r gweithlu.

8 Effeithiwyd yn ddifrifol ar wasanaethau gofal sylfaenol gan bandemig COVID-19. Er bod yr argyfwng uniongyrchol ar gyfer iechyd y cyhoedd wedi cilio, mae darparwyr gofal sylfaenol yn dal i wynebu heriau wrth iddynt geisio ailgychwyn, adfer ac ailgyflunio eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a chwrdd â disgwyliadau’r cyhoedd mewn byd ar ôl y pandemig.

9 Mae ein hadolygiad wedi canolbwyntio’n bennaf ar asesu i ba raddau y mae’r Bwrdd Iechyd wedi rhoi’r argymhellion a wnaed gennym yn 2018 ar waith. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith ychwanegol i asesu i ba raddau:

- y mae’r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau’n mynd ati’n rheolaidd i ystyried materion sy’n ymwneud â chynllunio, perfformiad, risgiau a chyfleoedd mewn perthynas â gwasanaethau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd; ac
- y mae gan Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd y capasiti a’r gallu priodol (o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiad) i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â rheoli anghenion gweithredol ac anghenion busnes o ddydd i ddydd.

10 Caiff y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiad 1**.

# Canfyddiadau allweddol

11 Ar y cyfan, canfuom **fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol, yn enwedig mewn perthynas ag aelodaeth ac arweinyddiaeth clystyrau, cynllunio'r gweithlu, a ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, mae wedi ei chael hi'n anodd sefydlu llinell sylfaen ariannol a dangos bod adnoddau'n cael eu symud o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. Er bod gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Gofal Sylfaenol sydd â strwythur ac adnoddau priodol, mae'n profi heriau o ran capasiti mewn rhai meysydd. Mae gofal sylfaenol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd, ond mae angen gwella'r sylw a roddir i faterion gofal sylfaenol yn y Bwrdd.**

## Rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith

12 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael ag argymhellion a oedd yn ymwneud ag aelodaeth ac arweinyddiaeth clystyrau a'i fod yn bwrw ymlaen â gwaith ar gynllunio'r gweithlu a ffyrdd newydd o weithio. Mae hefyd wedi datblygu ei ddull ei hun o asesu'r galw a chapasiti o fewn practisiau meddygon teulu. Fodd bynnag, mae wedi ei chael hi'n anodd sefydlu llinell sylfaen ariannol a dangos bod adnoddau'n cael eu symud o ofal eilaidd i ofal sylfaenol**.

13 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i adolygu aeddfedrwydd clystyrau, ehangu aelodaeth clystyrau, a chefnogi arweinyddiaeth clystyrau. Mae ganddo hefyd drefniadau da i gasglu gwybodaeth yn systematig am nifer a sgiliau'r staff mewn meddygaeth deulu, ond nid ar gyfer rhannau eraill o'r sector gofal sylfaenol.

14 Mae gwerthusiadau o ffyrdd newydd o weithio'n cael eu cynnal a gwersi o'r rhain yn cael eu rhannu ar sail clwstwr, ond nid trwy ddull safonol y cytunwyd arno gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae trefniadau da ar waith i hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio a phwyntiau cyswllt amgen gyda'r cyhoedd, gan gynnwys amryw blatfformau ar y cyfryngau cymdeithasol, ond mae'n aneglur a yw'r gweithgarwch hwn yn lleihau'r galw am apwyntiadau gyda meddygon teulu.

15 Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd goladu na rhannu'r gwersi o waith y Sefydliad Gofal Sylfaenol a gyflawnwyd yn 2018 ac ers hynny mae wedi datblygu ei ddull ei hun o gynnal asesiadau o'r galw a chapasiti ym mhractisiau meddygon teulu. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau llinell sylfaen eto ar gyfer ei fuddsoddiad cyfredol mewn gofal sylfaenol a chymunedol y gall ei defnyddio i asesu ei gynnydd o ran symud adnoddau o ofal eilaidd. Er ei fod wedi symud rhai gwasanaethau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, cafodd hyn ei hwyluso i raddau helaeth gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi mentrau penodol.

## Capasiti a gallu i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol

16 Canfuom **fod gan Grŵp Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol newydd y Bwrdd Iechyd strwythur ac adnoddau priodol, a'i fod wedi'i danategu gan drefniadau arwain, llywodraethu, ac adrodd eglur. Er bod y Grŵp Gofal yn profi heriau o ran capasiti mewn rhai meysydd, roedd yn cymryd camau gweithredu priodol i liniaru'r risgiau cysylltiedig a'u lleihau i'r eithaf**.

17 Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol newydd yn 2022 a chanddo drefniadau arwain, llywodraethu, ac adrodd eglur. Mae'r Grŵp Gofal newydd wedi'i fwriadu i ddwyn ystod o fanteision gan gynnwys gwella capasiti a goruchwyliaeth rheolwyr; mynd i'r afael â bylchau mewn arweinyddiaeth glinigol; cryfhau cydweithio a chydnerthedd rhwng gwasanaethau gwahanol; darparu gwell cyfleoedd datblygu ar gyfer staff; a chefnogi proses effeithiol i gynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu buddsoddiad ychwanegol i gefnogi'r newidiadau hyn. Mae'r Grŵp Gofal yn profi heriau o ran capasiti mewn rhai meysydd wrth iddo geisio llenwi swyddi gwag a rheoli absenoldebau oherwydd salwch. Mae'r heriau hyn o ran capasiti'n ei atal rhag bwrw ymlaen â gwaith mewn rhai meysydd, yn enwedig gwasanaethau deintyddol. Fodd bynnag, mae'r Grŵp Gofal yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r heriau hyn yn briodol. Mae gan y Grŵp Gofal drefniadau priodol i gefnogi dysgu a datblygiad staff.

## Gwelededd gofal sylfaenol a ffocws arno ar lefel y Bwrdd

18 Canfuom **fod gofal sylfaenol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd o hyd i roi mwy o sylw i faterion gofal sylfaenol yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac i egluro pa bwyllgor fydd yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch gwasanaethau gofal sylfaenol dan y strwythur pwyllgorau newydd sy'n cael ei gyflwyno yn 2025**.

19 Caiff gofal sylfaenol ei adlewyrchu'n ddigonol yn strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd – CTM 2030 – gyda blaenoriaethau manwl ar gyfer 2024-25 wedi'u nodi yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y sefydliad ar gyfer 2024-27. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith ar ei Gynllun Gwasanaethau Cymunedol Integredig a Chynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt hirdymor i roi cymorth i symud adnoddau a gwasanaethau i ofal sylfaenol a chymunedol.

20 Caiff gofal sylfaenol ei adlewyrchu yng nghylch gorchwyl y Bwrdd. Fodd bynnag, nid oedd gofal sylfaenol wedi'i gynnwys yng Nghylch Busnes y Bwrdd ar gyfer 2023-24, ac ni chafodd unrhyw adroddiadau penodol ar ofal sylfaenol yn ystod y cyfnod hwn. Yn lle hynny, cafodd materion a oedd yn ymwneud â gofal sylfaenol eu cynnwys i raddau helaeth mewn adroddiadau rheolaidd eraill ar berfformiad, ansawdd, a chyllid. Ar ben hynny, nid yw'r Bwrdd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol wedi'i neilltuo i ofal sylfaenol mwyach ac ychydig o sylw a roddir i faterion gofal

sylfaenol yn ei Adroddiad Blynyddol cyffredinol. O ganlyniad, nid yw aelodau'r Bwrdd yn gallu ffurfio barn strategol am effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau gofal sylfaenol ar y cyfan a pha un a yw camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn gwella cynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy.

21 Mae Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau'n darparu goruchwyliaeth dda ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar y cyfan ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, gyda phwyllgorau eraill yn darparu goruchwyliaeth ar faterion penodol sy'n ymwneud ag ansawdd, perfformiad, a chyllid. Fodd bynnag, mae Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau'n cael ei ddiddymu ar ddiwedd mis Rhagfyr 2024, a bydd ei swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo i ddau bwyllgor newydd pan gyflwynir strwythur pwyllgorau newydd y Bwrdd ym mis Ionawr 2025. Fodd bynnag, mae'n aneglur pa bwyllgor newydd fydd yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.

# Argymhellion

22 Caiff statws yr argymhellion archwilio a wnaed gennym yn 2018 ei grynhoi yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2018**

| Wedi'i roi ar waith | Wrthi'n mynd rhagddo | Dim gweithredu | Wedi'i ddisodli | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2 | 6 | 2 | 1 | **11** |

23 Mae **Arddangosyn 2** yn manylu ar yr argymhellion newydd sy'n deillio o'r archwiliad hwn. Cyflwynir ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion newydd, yn ogystal â'r argymhellion sy'n agored o'n harchwiliad yn 2018, yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 2: argymhellion**

| **Argymhellion** |
|---|
| A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd gynorthwyo aelodau'r Bwrdd i ffurfio barn strategol ynglŷn ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau gofal sylfaenol ar y cyfan a pha un a yw camau gweithredu'r sefydliad yn y maes hwn yn gwella cynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy trwy wella'r sylw a roddir i faterion gofal sylfaenol yn ei Adroddiad Blynyddol rheolaidd. **(Paragraff 59)** |

**Argymhellion**

A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro pa bwyllgor yn y strwythur pwyllgorau newydd a gyflwynir ym mis Ionawr 2025 fydd yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch trefniadau'r sefydliad ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, ar ôl diddymu Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau ar ddiwedd mis Rhagfyr 2024. **(Paragraff 62)**

# Adroddiad manwl

## Rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith

24 Fe wnaethom ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi'r argymhellion archwilio a wnaed gennym yn 2018 ar waith. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cynllunio strategol (Argymhelliad 1 yn 2018);
- buddsoddi mewn gofal sylfaenol (Argymhellion 2a a 2b yn 2018);
- y gweithlu gofal sylfaenol (Argymhelliad 3 yn 2018);
- ffyrdd newydd o weithio (Argymhellion 4a, 4b, 4c, a 4d yn 2018); a hefyd
- clystyrau gofal sylfaenol (Argymhellion 5a, 5b, a 5c yn 2018).

25 Ar y cyfan, canfuom **fod y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael ag argymhellion a oedd yn ymwneud ag aelodaeth ac arweinyddiaeth clystyrau a'i fod yn bwrw ymlaen â gwaith ar gynllunio'r gweithlu a ffyrdd newydd o weithio. Mae hefyd wedi datblygu ei ddull ei hun o asesu'r galw a chapasiti ym mhractisiau meddygon teulu. Fodd bynnag, mae wedi ei chael hi'n anodd sefydlu llinell sylfaen ariannol a dangos bod adnoddau'n cael eu symud o ofal eilaidd i ofal sylfaenol**.

### Cynllunio strategol

26 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith yn ganolog i ddadansoddi a choladu'r negeseuon o asesiadau'r Sefydliad Gofal Sylfaenol o'r galw a chapasiti ym mhractisiau meddygon teulu ac wedi rhannu'r gwersi ar draws yr holl bractisiau (Argymhelliad 1 yn 2018).

27 Canfuom **na wnaeth y Bwrdd Iechyd goladu na rhannu'r gwersi o waith y Sefydliad Gofal Sylfaenol a'i fod wedi mynd ati ers hynny i ddatblygu ei ddull ei hun o gynnal asesiadau o'r galw a chapasiti ym mhractisiau meddygon teulu**.

28 Yn 2018, fe wnaethom adrodd bod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi comisiwn i'r Sefydliad Gofal Sylfaenol i gynnal asesiadau o'r galw a chapasiti ym mhractisiau meddygon teulu. Roedd cyfranogiad yn amrywiol gan bod asesiadau wedi cael eu cynnig i bractisiau meddygon teulu ar sail wirfoddol. O ganlyniad, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd goladu na rhannu'r gwersi ar draws yr holl bractisiau ac fe benderfynodd beidio â gwneud defnydd pellach o'r Sefydliad Gofal Sylfaenol. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei ddull ei hun o asesu'r galw a chapasiti, sy'n cyd-fynd â'r safonau cenedlaethol ar gyfer mynediad at wasanaethau[3] ac yn rhoi sylw i ystyriaethau ehangach o ran cynaliadwyedd meddygaeth deulu. Defnyddir y dull gan y Bwrdd Iechyd i wella eu cynaliadwyedd a'u cydnerthedd, sicrhau

[3] Cyflwynwyd y Safonau Mynediad at Wasanaethau Meddygol Cyffredinol o Fewn Oriau Arferol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2019. Mae'r safonau'n gosod gofynion eglur ar bractisiau o ran lleiafswm y disgwyliadau mewn perthynas â mynediad, gan gynnwys mwy o arlwy ddigidol.

sefydlogrwydd gweithredol, a datblygu ffyrdd mwy effeithiol o weithio. Mae camau gweithredu penodol yn cael eu datblygu a'u cytuno i fynd i'r afael ag anghenion o ran y galw, capasiti a chynaliadwyedd ymhlith y practisiau meddygon teulu ac arnynt angen y cymorth mwyaf, gyda diweddariadau ar faterion a risgiau allweddol yn cael eu darparu ar gyfer Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau. **Rydym felly'n ystyried bod Argymhelliad 1 a wnaed gennym yn 2018 wedi'i ddisodli**.

## Buddsoddiad mewn gofal sylfaenol

29 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd:

- wedi cyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ei fuddsoddiad a'i ddefnydd o adnoddau ar hyn o bryd mewn gofal sylfaenol a chymunedol (Argymhelliad 2a yn 2018); ac
- wedi adolygu ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac adrodd arno, o leiaf yn flynyddol, i asesu'r cynnydd ers y llinell sylfaen ac i fonitro i ba raddau y mae'n llwyddo i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol (Argymhelliad 2b yn 2018).

30 Canfuom **nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu llinell sylfaen eto ar gyfer ei fuddsoddiad ar hyn o bryd mewn gofal sylfaenol a chymunedol y gall ei defnyddio i asesu ei gynnydd o ran symud adnoddau o ofal eilaidd**.

31 Fe geisiodd y Bwrdd Iechyd gyfrifo a sefydlu llinell sylfaen ar gyfer ei fuddsoddiad a'i ddefnydd o adnoddau mewn gofal sylfaenol a chymunedol erbyn mis Mawrth 2019 fel rhan o'r elfen sylfaenol a chymunedol o Gynllun Trawsnewid Partneriaeth Cwm Taf[4]. Fodd bynnag, ni chyflawnodd hyn. Ym mis Ebrill 2019, fe ysgwyddodd y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr, gan felly ddod yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Roedd hwn yn gyfle pellach i'r Bwrdd Iechyd gyfrifo a sefydlu llinell sylfaen. Fodd bynnag, ni fanteisiodd ar y cyfle hwn. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfle pellach i gyfrifo a sefydlu llinell sylfaen glir fel rhan o ddatblygu ei Gynllun Gwasanaethau Cymunedol Integredig a Chynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt hirdymor (gweler **paragraff 57**). **Rydym felly'n ystyried na fu unrhyw weithredu ar Argymhelliad 2a a wnaed gennym yn 2018.**

32 Fel yr ydym yn ei drafod ym **mharagraff 57**, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ei fodel clinigol cyfredol yn rhoi gormod o bwyslais ar wasanaethau acíwt ac nad yw'n rhoi digon o gymorth i symud adnoddau a gwasanaethau i ofal sylfaenol a chymunedol. Mae wedi llwyddo i symud peth gweithgarwch o ofal eilaidd i ofal sylfaenol trwy fuddsoddi mewn cynlluniau yn y gymuned, megis y fenter sydd wedi'i bwriadu i sicrhau bod cleifion glawcoma risg is yn cael eu hasesu a'u

[4] Roedd y cynllun yn nodi ymateb Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf i ganfyddiadau'r Asesiad o Boblogaeth Cwm Taf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017.

monitro gan optometryddion yn y gymuned. Fodd bynnag, mae'r newid hwn wedi cael ei hwyluso gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mentrau penodol, yn hytrach na phenderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i ailgyfeirio cyllid craidd o ofal acíwt i ofal sylfaenol. Ar ben hynny, heb linell sylfaen, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu monitro, asesu ac adolygu ei gynnydd o ran symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol ac adrodd yn flynyddol ar hynny. Bydd mynd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad hwn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i'r Bwrdd Iechyd geisio gweithredu a mesur, maes o law, effaith ei Gynllun Gwasanaethau Cymunedol Integredig a Chynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt hirdymor. **Rydym felly'n ystyried na fu unrhyw weithredu ar Argymhelliad 2b a wnaed gennym yn 2018**.

## Y gweithlu gofal sylfaenol

33 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a chyflawni cynllun gweithredu i sicrhau bod ganddo wybodaeth safonedig, gynhwysfawr, reolaidd am nifer a sgiliau'r staff, o bob proffesiwn, sy'n gweithio ym mhob lleoliad gofal sylfaenol (Argymhelliad 3 yn 2018).

34 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i gasglu gwybodaeth yn systematig am nifer a sgiliau'r staff mewn meddygaeth deulu, ond nid ar gyfer rhannau eraill o'r sector gofal sylfaenol**.

35 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i gasglu gwybodaeth am nifer a sgiliau'r staff mewn meddygaeth deulu. Fel a drafodwyd ym **mharagraff 28**, mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'i ddull o asesu, deall ac ymateb i anghenion meddygfeydd teulu o ran y galw, capasiti, a chynaliadwyedd. Mae hefyd yn defnyddio data'r cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu a gesglir trwy System Genedlaethol Cymru ar gyfer Adrodd ar y Gweithlu (WNWRS)[5] i oleuo ei drefniadau cynllunio sefydliadol a chynllunio ar lefel clwstwr. Ceir cynlluniau cenedlaethol i gyflwyno WNWRS i'r gwasanaethau gofal sylfaenol eraill; fodd bynnag, nid yw hyn wedi digwydd eto. Ar ben hynny, nid oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau eraill i gasglu'r wybodaeth hon yn lleol mewn modd systematig. **Rydym felly'n ystyried bod Argymhelliad 3 a wnaed gennym yn 2018 wrthi'n mynd rhagddo**.

## Ffyrdd newydd o weithio

36 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd:

- wedi gweithio gyda chlystyrau i gytuno ar fframwaith penodol ar gyfer gwerthuso ffyrdd newydd o weithio, i ddarparu tystiolaeth o ddeilliannau

[5] Datrysiad digidol sy'n darparu gwybodaeth am y gweithlu ar gyfer yr holl Ofal Sylfaenol a Chymunedol yng Nghymru yw System Genedlaethol Cymru ar gyfer Adrodd ar y Gweithlu

buddiol a goleuo penderfyniadau ynglŷn ag ehangu'r modelau hyn neu beidio (Argymhelliad 4a yn 2018);

- wedi gweithio'n ganolog i goladu gwerthusiadau o ffyrdd newydd o weithio a rhannu'r negeseuon allweddol ar draws yr holl glystyrau (Argymhelliad 4b yn 2018);
- wedi gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn enwedig pwyntiau cyswllt cyntaf amgen newydd mewn gofal sylfaenol sydd â'r potensial i leihau'r galw am apwyntiadau gyda meddygon teulu (Argymhelliad 4c yn 2018); ac
- wedi gwerthuso effeithiolrwydd rôl newydd y swyddog cyfathrebu gofal sylfaenol ac wedi rhannu'r gwersi gyda'r holl fyrddau iechyd yng Nghymru (Argymhelliad 4d yn 2018).

37 Canfuom **fod gwerthusiadau o ffyrdd newydd o weithio'n cael eu cynnal a bod gwersi o'r rhain yn cael eu rhannu ar sail clwstwr, ond nid trwy ddull safonol y cytunwyd arno gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae trefniadau da ar waith i hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio a phwyntiau cyswllt amgen gyda'r cyhoedd, ond mae'n aneglur a yw'r gweithgarwch hwn yn lleihau'r galw am apwyntiadau gyda meddygon teulu**.

38 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda chlystyrau i ddatblygu a mabwysiadu dull safonol o werthuso a rhannu gwersi. Yn lle hynny, mae wedi ceisio grymuso clystyrau i ddatblygu a mabwysiadu eu dulliau gwerthuso eu hunain yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau unigol gyda mewnbwn gan Dîm Iechyd y Cyhoedd fel y bo angen. Mae hefyd yn annog Arweinwyr Clystyrau a Rheolwyr Datblygu Clystyrau i rannu gwersi o werthusiadau gyda chlystyrau eraill. Er ei bod yn werth caniatáu i glystyrau gytuno ar eu dulliau eu hunain o werthuso a rhannu gwersi, byddai dull safonol yn sicrhau bod tystiolaeth o ddeilliannau ac effaith yn cael ei chasglu, ei dadansoddi, ei defnyddio, a'i lledaenu mewn modd cyson. **Rydym felly'n ystyried bod Argymhellion 4a a 4b a wnaed gennym yn 2018 wrthi'n mynd rhagddynt**.

39 Mae'r Bwrdd Iechyd, clystyrau, a phractisiau meddygon teulu unigol yn defnyddio ystod o ddulliau traddodiadol a modern i hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio a phwyntiau cyswllt amgen gyda'r cyhoedd, gan gynnwys cyhoeddi postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a dosbarthu posteri a thaflenni i sicrhau bod y rhai heb fynediad at y rhyngrwyd yn gallu cael gwybodaeth. Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen gynhwysfawr i hyrwyddo gwahanol faterion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol a chodi ymwybyddiaeth ohonynt trwy ei amryw sianeli a phlatfformau ar y cyfryngau cymdeithasol. Er bod hyn yn gadarnhaol, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau eto i asesu a yw'r gweithgarwch hyrwyddo hwn yn lleihau'r galw am apwyntiadau gyda meddygon teulu. **Rydym felly'n ystyried bod Argymhelliad 4c a wnaed gennym yn 2018 wrthi'n mynd rhagddo**.

40 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol o effeithiolrwydd ei rôl Swyddog Cyfathrebu Gofal Sylfaenol. Fodd bynnag, mae wedi rhannu gwybodaeth am y rôl gyda byrddau iechyd eraill yng Nghymru trwy grwpiau a fforymau

cenedlaethol. Rhan-amser yw'r swydd o hyd, ond mae bellach yn cael ei hariannu â chyllid craidd, yn hytrach na chyllid clwstwr. Mae sgyrsiau'n digwydd ynglŷn â sicrhau adnodd ychwanegol gan Dîm Cyfathrebu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd i gryfhau'r rôl ymhellach trwy ei gwneud yn swydd amser llawn. **Rydym felly'n ystyried bod Argymhelliad 4d a wnaed gennym yn 2018 wrthi'n mynd rhagddo**.

## Clystyrau gofal sylfaenol

41 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd:

- wedi adolygu aeddfedrwydd perthynol clystyrau, ac wedi targedu a chryfhau ei gymorth i glystyrau lle y bo angen (Argymhelliad 5a yn 2018);
- wedi adolygu aelodaeth clystyrau a phresenoldeb yng nghyfarfodydd clystyrau i asesu a oes cynrychiolaeth briodol o bob grŵp rhanddeiliaid megis awdurdodau lleol, y trydydd sector, cynrychiolwyr lleyg (Argymhelliad 5b yn 2018); ac
- wedi datblygu cynllun gweithredu i gryfhau arweinyddiaeth clystyrau (Argymhelliad 5b yn 2018).

42 Canfuom **fod camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i adolygu aeddfedrwydd clystyrau, ehangu aelodaeth clystyrau, a chefnogi arweinyddiaeth clystyrau**.

43 Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o drawsnewid ei glystyrau trwy'r rhaglen ACD (Datblygu Clwstwr Carlam)[6]. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu map ffordd, gyda cherrig milltir a deilliannau, i roi cymorth i weithredu'r rhaglen. Mae cynnydd yn cael ei oruchwylio ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth. Fodd bynnag, mae'n aneglur pa bwyllgor fydd yn goruchwylio cynnydd pan fydd y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno strwythur pwyllgorau newydd ym mis Ionawr 2025 (gweler **paragraff 62**). Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ystod o ddulliau i asesu aeddfedrwydd clystyrau, megis rhestrau gwirio ac adolygiadau gan gymheiriaid. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod amrywiad sylweddol o hyd mewn aeddfedrwydd rhwng clystyrau y mae angen ymdrin ag ef gyda chymorth Rheolwyr Datblygu'r Clystyrau a'r Tîm Gofal Sylfaenol canolog. **Rydym felly'n ystyried bod Argymhelliad 5a a wnaed gennym yn 2018 wrthi'n mynd rhagddo**.

44 Mae pob clwstwr wedi mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol ym mis Ebrill 2022, gyda'r aelodaeth wedi'i hestyn i gynnwys cynrychiolaeth o blith yr holl wasanaethau lleol perthnasol sy'n cyfrannu i ofal iechyd a gofal cymdeithasol yn eu priod ardaloedd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi adolygu a diweddaru aelodaeth ei Grwpiau

[6] Menter strategol i wella gwasanaethau gofal sylfaenol yw'r rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam. Mae'n gweithredu trwy Glystyrau a Chydweithrediadau Proffesiynol, gan amcanu at wella iechyd a llesiant poblogaethau lleol trwy gydlynu gwasanaethau iechyd yn y gymuned.

Cynllunio Traws-glwstwr[7], y ceir tri ohonynt yn ardal y Bwrdd Iechyd – un ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, un ar gyfer Merthyr Tudful, ac un ar gyfer Rhondda Cynon Taf. **Rydym felly'n ystyried bod Argymhelliad 5b a wnaed gennym yn 2018 wedi cael ei roi ar waith**.

45 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i gryfhau arweinyddiaeth clystyrau. Er enghraifft, mae'n annog ac yn cynorthwyo arweinwyr clystyrau i fynychu'r Rhaglen Arweinyddiaeth Arbenigol a gaiff ei rhedeg gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i fuddsoddi'n lleol yn arweinyddiaeth clystyrau trwy gefnogi'r Clinigwyr a Rheolwyr Practisiau Arweiniol ym mhob clwstwr, yn ogystal â chyflogi Rheolwyr Datblygu Clystyrau amser llawn. **Rydym felly'n ystyried bod Argymhelliad 5b a wnaed gennym yn 2018 wedi cael ei roi ar waith**.

## Capasiti i gyflawni cynlluniau gofal sylfaenol

46 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd yn meddu ar y capasiti a'r gallu priodol (o ran gwybodaeth, sgiliau, a phrofiad) i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn ogystal ag i reoli anghenion gweithredol ac anghenion busnes o ddydd i ddydd. Wrth wneud hynny, fe wnaethom ystyried a oes gan y Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog:

- strwythur sydd ag adnoddau priodol, a adolygir yn gyson, gyda llinellau atebolrwydd eglur; a hefyd
- trefniadau i adnabod a chefnogi anghenion dysgu a datblygu, a chynllunio ar gyfer olyniaeth, a hynny'n barhaus.

47 Canfuom **fod gan Grŵp Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol newydd y Bwrdd Iechyd strwythur ac adnoddau priodol, a'i fod wedi'i danategu gan drefniadau arwain, llywodraethu, ac adrodd eglur. Er bod y Grŵp Gofal yn profi heriau o ran capasiti mewn rhai meysydd, roedd yn cymryd camau gweithredu priodol i liniaru'r risgiau cysylltiedig a'u lleihau i'r eithaf**.

48 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd, fel rhan o broses newid sefydliadol ehangach, sefydlu Grŵp Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol newydd yn 2022[8] gyda threfniadau arweinyddiaeth, llywodraethu, ac adrodd eglur. Darperir uwch arweinyddiaeth gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth (1 Cyfwerth ag Amser Cyflawn), Cyfarwyddwr Nyrsio

[7] Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr sy'n arwain datblygiad cynlluniau integredig, gan amcanu at wneud defnydd darbodus o'r holl gyllid, gweithlu, ac adnoddau eraill perthnasol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd, gofal a llesiant eu poblogaethau lleol.

[8] Ym mis Mawrth 2022, rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth i greu model gweithredu newydd gyda'r nod o gefnogi adferiad ar ôl y pandemig; gwella ansawdd gwasanaethau; llifinio trefniadau rheoli; a hwyluso cydweithio ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd cam 1 y broses o roi'r model gweithredu newydd ar waith yn golygu disodli'r strwythur Grwpiau Ardal Integredig â Grwpiau Gofal newydd ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grŵp Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn un o gyfanswm o chwe grŵp gofal.

(0.5 Cyfwerth ag Amser Cyflawn), Cyfarwyddwr Meddygol (4 Sesiwn), Cyfarwyddwr Deintyddol (4 Sesiwn), a Chyfarwyddwr Gofal Heb Ei Drefnu (1 Sesiwn). Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn atebol i'r Prif Swyddog Gweithredu.

49 Mae gan y Grŵp Gofal fyrddau a grwpiau sydd wedi hen ennill eu plwyf ac sy'n goruchwylio materion amrywiol gan gynnwys iechyd a diogelwch; ansawdd, diogelwch cleifion, a phrofiad cleifion; cyllid; a pherfformiad. Mae'r byrddau a'r grwpiau hyn yn adrodd wrth amryw fyrddau ar draws y Bwrdd Iechyd (megis y Bwrdd Rheoli Gweithredol, y Bwrdd Perfformiad Integredig, a'r Bwrdd Gwella Gofal) sydd, yn eu tro, yn darparu sicrwydd ar gyfer amryw bwyllgorau gan y Bwrdd. Fel yr ydym yn ei drafod ym **mharagraffau 61 a 62**, mae'r Grŵp Gofal hefyd yn darparu Diweddariadau Strategol ar gyfer Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau ac Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

50 Mae'r strwythur Grwpiau Gofal newydd, sy'n cynnwys y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymunedol, wedi'i fwriadu i wneud y canlynol:

- cadw sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn meysydd allweddol;
- gwella capasiti a goruchwyliaeth rheolwyr;
- mynd i'r afael â bylchau mewn arweinyddiaeth glinigol;
- cryfhau cydweithio, aliniad, a chydnerthedd rhwng y priod wasanaethau ym mhob cyfarwyddiaeth; a
- darparu gwell cyfleoedd datblygu i staff o fewn ac ar draws pob cyfarwyddiaeth, a chefnogi gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth.

Mae costau cyflog y strwythur newydd ar y cyfan ychydig yn uwch na chostau cyflog y strwythur blaenorol ar y cyfan. Fodd bynnag, fe gytunodd y Bwrdd Iechyd i dalu'r costau cyflog ychwanegol i sicrhau bod y newidiadau a amlinellir uchod yn gallu cael eu cyflawni a'u gwreiddio'n llawn.

51 Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Grŵp Gofal yn profi rhai heriau o ran capasiti o fewn y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol gan ei fod yn y broses o lenwi swyddi gwag a rheoli absenoldebau oherwydd salwch ar draws rhai timau. O ganlyniad, nid oedd y Grŵp Gofal yn gallu bwrw ymlaen â gwaith mewn rhai meysydd, yn enwedig yn y gwasanaethau deintyddol. Fodd bynnag, roedd y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r heriau hyn wedi'u cofnodi'n briodol yng Nghofrestr Risgiau'r Grŵp Gofal ac roedd nifer o gamau lliniarol wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys darparu mwy o eglurder ynghylch blaenoriaethau cyflawni gweithredol a gwella cymorth rheoli byrdymor.

52 Mae gan y Grŵp Gofal drefniadau priodol i gefnogi dysgu a datblygu. Mae pob aelod newydd o staff yn cael proses sefydlu, a defnyddir Adolygiadau o Berfformiad a Datblygiad i adnabod anghenion dysgu a datblygu unigol. Mae'r strwythur Grwpiau Gofal newydd wedi darparu cyfleoedd hyrwyddo ac fe drefnwyd diwrnod cyfan ar 'Arwain Trwy Newid' i arfogi uwch arweinwyr a rheolwyr â'r wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i gefnogi staff trwy'r broses newid sefydliadol mewn modd tosturiol a chynhwysol.

## Gwelededd gofal sylfaenol a ffocws arno ar lefel y Bwrdd

53 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau'n rhoi ystyriaeth reolaidd i faterion sy'n ymwneud â chynllunio, perfformiad, risgiau, a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd.

54 Roeddem yn disgwyl gweld y canlynol:

- bod gofal sylfaenol yn cael ei adlewyrchu yn strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd ac yn adlewyrchu uchelgeisiau 'Cymru Iachach';
- bod gofal sylfaenol wedi'i gynnwys yng nghylchoedd gorchwyl a chynlluniau gwaith y Bwrdd a Phwyllgorau perthnasol;
- bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod gofal sylfaenol yn cael ei ystyried yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ac yn cael ei gynnwys mewn papurau ac adroddiadau o elfennau ehangach o fusnes y Bwrdd Iechyd, e.e. adroddiadau ar gyllid, risgiau, a gwasanaethau perthnasol;
- bod cynnwys adroddiadau ar berfformiad ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau'n rhoi sylw digonol i ofal sylfaenol; a
- bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried cyhoeddi adroddiad blynyddol wedi'i neilltuo i ofal sylfaenol.

55 Canfuom **fod gofal sylfaenol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd o hyd i roi mwy o sylw i faterion gofal sylfaenol yn y Bwrdd, yn ogystal ag egluro pa bwyllgor fydd yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch gwasanaethau gofal sylfaenol dan y strwythur pwyllgorau newydd sy'n cael ei gyflwyno yn 2025**.

56 Mae gofal sylfaenol yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn strategaethau a chynlluniau allweddol y Bwrdd Iechyd. Mae strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd - CTM 2030 – yn cyd-fynd â 'Cymru Iachach' ac yn pwysleisio dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant. O ganlyniad, mae darparu gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol cynaliadwy ac integredig o ansawdd da'n greiddiol i'r pum cyfnod mewn bywyd (Dechrau'n Dda, Tyfu'n Dda, Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda, a Marw'n Dda) sy'n fframio pedwar nod strategol y Bwrdd Iechyd, sef Creu Iechyd, Gwella Gofal, Cynnal Ein Dyfodol, ac Ysbrydoli Pobl.

57 I roi cymorth i weithredu'r strategaeth, mae Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-27 yn nodi manylion ei raglen drawsnewid ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol a'r blaenoriaethau penodol ar gyfer 2024-25. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ei Gynllun Gwasanaethau Cymunedol Integredig a Chynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt Hirdymor dan faner CTM 2030. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod ei fodel clinigol cyfredol yn rhoi gormod o bwyslais ar wasanaethau acíwt ac nad yw'n rhoi digon o gymorth i symud adnoddau a gwasanaethau i ofal

sylfaenol a chymunedol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn profi oedi ar hyn o bryd o ran bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn unol â'i raddfeydd amser gwreiddiol.

58 Mae gofal sylfaenol wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl y Bwrdd fel a nodir yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid oedd gofal sylfaenol wedi'i gynnwys yng Nghylch Busnes y Bwrdd yn 2023-24, ac ni chafodd unrhyw adroddiadau penodol ar ofal sylfaenol yn ystod y cyfnod hwn. Yn lle hynny, roedd materion a oedd yn ymwneud â gofal sylfaenol yn cael sylw yn bennaf mewn adroddiadau rheolaidd eraill:

- **Dangosfwrdd Perfformiad Integredig:** Roedd y dangosfwrdd yn rhoi adlewyrchiad priodol o'r mesurau gofal sylfaenol perthnasol a oedd wedi'u cynnwys yn Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2023-24. Fodd bynnag, roedd gallu'r Bwrdd i oruchwylio a chraffu ar berfformiad y Bwrdd Iechyd yn y maes hwn yn cael ei rwystro gan ddiffyg data ar gyfer sawl un o'r mesurau. Nid yw'n glir pam nad oedd y data ar gael na phryd y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Ar ben hynny, roedd y mesurau gofal sylfaenol yr adroddid arnynt trwy'r dangosfwrdd yn canolbwyntio ar fynediad at wasanaethau, yn hytrach nag ansawdd, effeithiolrwydd, ac effaith gwasanaethau.
- **Diweddariad ar Berfformiad Ariannol:** Roedd y diweddariadau'n darparu peth gwybodaeth am incwm a gwariant gofal sylfaenol; fodd bynnag, nid oeddent yn rhoi ymdeimlad o effeithlonrwydd na chynaliadwyedd ariannol gwasanaethau gofal sylfaenol.
- **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF):** Nid yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi unrhyw risgiau strategol na sefydliadol mewn perthynas â gofal sylfaenol, er gwaethaf y risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â bregusrwydd a chynaliadwyedd gwasanaethau. Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau a mentrau gofal sylfaenol wedi cael eu rhestru fel rheolaethau lliniaru ar gyfer y brif risg sy'n ymwneud â disgwyliad oes iach.
- **Diweddariadau Chwarterol ar Gynllun Blynyddol 2023-24:** Roedd y diweddariadau'n darparu trosolwg dda ar gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni ei flaenoriaethau gofal sylfaenol ar gyfer 2023-24, gyda mwy o fanylder yn cael ei ddarparu yn yr atodiadau a oedd yn cyd-fynd â hwy. Fodd bynnag, mae'n aneglur pa effaith, os o gwbl, yr oedd y camau gweithredu'n ei chael ar fesurau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd.

59 Ar ben hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol wedi'i neilltuo i ofal sylfaenol mwyach. Er y cyfeirir rywfaint yn Adroddiad Blynyddol 2023-24 at berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn targedau mynediad at ofal sylfaenol, nid yw'r adroddiad yn darparu trosolwg na chrynodeb o weithgarwch ehangach y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â gofal sylfaenol yn ystod y flwyddyn. Felly, nid yw aelodau'r Bwrdd yn gallu ffurfio barn strategol ynglŷn ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau gofal sylfaenol ar y cyfan a pha un a yw amryw gamau gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn gwella cynaliadwyedd gwasanaethau yn y

tymor hwy. Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hyn trwy wella'r sylw a roddir i faterion gofal sylfaenol yn ei Adroddiad Blynyddol rheolaidd. **(Argymhelliad 1)**

60 Fe adlewyrchir gofal sylfaenol yng nghylch gorchwyl Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau, sy'n gyfrifol am ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol nes caiff ei ddiddymu ar ddiwedd 2024 (gweler **paragraff 62**). Yn ystod 2023-24, cafodd y pwyllgor ddau ddiweddariad strategol ar ofal sylfaenol, y naill ym mis Chwefror a'r llall ym mis Tachwedd. Roedd y ddau adroddiad yn darparu diweddariadau cynhwysfawr ar ystod o faterion a oedd yn ymwneud â gofal sylfaenol, gan gynnwys:

- cynnydd o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel a nodir yn y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol;
- datblygiadau mewn perthynas â diwygio contractau deintyddiaeth ac optometreg;
- cynaliadwyedd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol;
- Datblygu Clwstwr Carlam; a
- risgiau a materion allweddol yr oedd angen eu huwchgyfeirio.

61 Er na chyfeirir at ofal sylfaenol yng nghylchoedd gorchwyl pwyllgorau eraill y Bwrdd, cafodd eitemau a oedd yn ymwneud â gofal sylfaenol eu hystyried gan bwyllgorau eraill yn ystod 2023-24, yn benodol y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid:

- **Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch** – cafodd y Pwyllgor Adroddiad ar y Prif Bwyntiau yn rheolaidd gan y Grŵp Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol. Cafodd hefyd 'Gyflwyniad Taflu Goleuni' gan y Grŵp Gofal Sylfaenol a Chymunedol a oedd yn canolbwyntio'n briodol ar faterion sy'n rhan o gylch gwaith y pwyllgor.
- **Y Pwyllgor Archwilio a Risg** – cafodd y pwyllgor adroddiad ar Gamau Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau[9] a gymerwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023.
- **Y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid** – cafodd y pwyllgor adroddiadau rheolaidd ar berfformiad a chyllid, sy'n cyfeirio at ofal sylfaenol. Fodd bynnag, roedd yr adroddiadau hyn yr un fath i raddau helaeth â'r rhai a gafwyd gan y Bwrdd.

62 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i gyflwyno strwythur pwyllgorau newydd ym mis Ionawr 2025. Felly, mae Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau'n cael ei ddiddymu ar ddiwedd mis Rhagfyr 2024, a bydd ei swyddogaethau'n cael eu

[9] Gwirio Ar Ôl Gwneud Taliadau yw'r broses a gyflawnir i ddarparu sicrwydd ar gyfer Byrddau Iechyd bod yr hawliadau am daliadau a wnaed gan gontractwyr Gofal Sylfaenol yn briodol a bod y gwasanaeth wedi cael ei ddarparu fel a ddiffinnir gan fanyleb y GIG a deddfwriaeth berthnasol.

trosglwyddo i ddau bwyllgor newydd – y Pwyllgor Cyflawni Gweithredol a'r Pwyllgor Datblygu Strategol. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa un o'r pwyllgorau hyn fydd yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol. **(Argymhelliad 2)**

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Arddangosyn 3: dulliau archwilio**

Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a gafwyd trwy'r dulliau isod.

| Elfen o'r dulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Papurau'r Bwrdd a phwyllgorau<br>• Papurau'r Grŵp Goruchwylio Gofal Sylfaenol ac Iechyd y Cyhoedd<br>• Papurau Cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch, Risg a Llywodraethu<br>• Papurau Datblygu Clwstwr Carlam<br>• Hunanasesiad y Bwrdd Iechyd<br>• Cofnodion Clystyrau<br>• Blaenoriaethau gofal sylfaenol<br>• Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27 |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:<br>• Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd<br>• Y Prif Swyddog Gweithredu<br>• Y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu – Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl<br>• Cyfarwyddwr Gwasanaeth Arweiniol Gofal Sylfaenol<br>• Pennaeth Nyrsio Gofal Sylfaenol a Chymunedol<br>• Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Grwpiau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl<br>• Cyfarwyddwr Clinigol Gofal Sylfaenol<br>• Arweinydd Meddygol Gofal Sylfaenol<br>• Pennaeth Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol)<br>• Pennaeth Gofal Sylfaenol (Optometreg) |

# Atodiad 2

## Crynodeb o’r cynnydd yn erbyn yr argymhellion archwilio a wnaethom yn 2018

**Arddangosyn 4: crynodeb yn erbyn argymhellion 2018**

Mae **Arddangosyn 4** isod yn nodi’r argymhellion a wnaethom yn 2018 a’n crynodeb o’r cynnydd.

| Argymhellion | Cynnydd |
|---|---|
| **Cynllunio strategol**<br>A1 Rhoddodd y Bwrdd Iechyd gomisiwn i’r Sefydliad Gofal Sylfaenol i gynnal asesiadau o’r galw a chapasiti ym mhractisiau meddygon teulu ond mae’r defnydd o’r asesiadau gan bractisiau wedi bod yn amrywiol. I gynyddu gwerth y gwaith a gomisiynwyd i’r eithaf, dylai’r Bwrdd Iechyd wneud gwaith canolog i ddadansoddi a choladu’r negeseuon o’r asesiadau o’r galw a chapasiti a rhannu’r gwersi ar draws yr holl bractisiau. | **Wedi’i ddisodli**– Gweler paragraff 28. |
| **Buddsoddi mewn gofal sylfaenol**<br>A2 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo symud adnoddau o leoliadau eilaidd i rai sylfaenol a chymunedol, ni all ddangos bod y newid hwn yn digwydd. Dylai’r Bwrdd Iechyd: | |
| a) cyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ei fuddsoddiad a’i ddefnydd o adnoddau ar hyn o bryd mewn gofal sylfaenol a chymunedol; a | **Dim gweithredu** – Gweler paragraff 31. |
| b) adolygu ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac adrodd arno, o leiaf yn flynyddol, i asesu’r cynnydd ers y llinell sylfaen ac i fonitro i ba raddau y mae’n llwyddo i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. | **Dim gweithredu** – Gweler paragraff 32. |

| Argymhellion | Cynnydd |
|---|---|
| **Y gweithlu gofal sylfaenol**<br>A3 Mae gallu'r Bwrdd Iechyd i gynllunio'r gweithlu'n cael ei rwystro gan y ffaith mai cyfyngedig yw'r data sydd ganddo am nifer a sgiliau'r staff sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol, yn enwedig deintyddiaeth, optometreg a fferylliaeth gymunedol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu i sicrhau ei fod yn cael gwybodaeth safonedig, gynhwysfawr, reolaidd am nifer a sgiliau'r staff, o bob proffesiwn, sy'n gweithio ym mhob lleoliad gofal sylfaenol. | **Wrthi'n mynd rhagddo** – Gweler paragraff 35. |

| Argymhellion | Cynnydd |
| --- | --- |
| **Ffyrdd newydd o weithio**<br>A4 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau tuag at roi rhai ffyrdd newydd o weithio ar waith, mae angen rhagor o gynnydd i werthuso effeithiolrwydd y modelau newydd hyn ac i brif ffrydio'r cyllid ar eu cyfer. Dylai'r Bwrdd Iechyd: | |
| a) gweithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol ar gyfer gwerthuso ffyrdd newydd o weithio, i ddarparu tystiolaeth o ddeilliannau buddiol a goleuo penderfyniadau ynglŷn ag ehangu'r modelau hyn neu beidio; | **Wrthi'n mynd rhagddo** – Gweler paragraff 38. |
| b) gweithio'n ganolog i goladu gwerthusiadau o ffyrdd newydd o weithio a rhannu'r gwersi trwy roi cyhoeddusrwydd i'r negeseuon allweddol ar draws yr holl glystyrau; | **Wrthi'n mynd rhagddo** – Gweler paragraff 38. |
| c) gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn enwedig pwyntiau cyswllt cyntaf amgen newydd mewn gofal sylfaenol sydd â'r potensial i leihau'r galw am apwyntiadau gyda meddygon teulu; a | **Wrthi'n mynd rhagddo** – Gweler paragraff 39. |
| d) gwerthuso effeithiolrwydd rôl newydd swyddog cyfathrebu gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd a rhannu'r gwersi gyda'r holl fyrddau iechyd yng Nghymru. | **Wrthi'n mynd rhagddo** – Gweler paragraff 40. |

| Argymhellion | Cynnydd |
| --- | --- |
| **Clystyrau gofal sylfaenol** | |
| A5 Canfuom amrywiad yn aeddfedrwydd clystyrau gofal sylfaenol, a chyfle i wella aelodaeth ac arweinyddiaeth clystyrau. Dylai'r Bwrdd Iechyd: | |
| a) adolygu aeddfedrwydd perthynol clystyrau, i ddatblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth i glystyrau lle y bo angen; | **Wrthi'n mynd rhagddo** – Gweler paragraff 43. |
| b) adolygu aelodaeth clystyrau a phresenoldeb yng nghyfarfodydd clystyrau i asesu a oes cynrychiolaeth briodol o bob grŵp rhanddeiliaid megis awdurdodau lleol, y trydydd sector, cynrychiolwyr lleyg; a grwpiau rhanddeiliaid eraill; ac | **Wedi'i roi ar waith** – Gweler paragraff 44. |
| c) datblygu cynllun gweithredu i gryfhau arweinyddiaeth clystyrau. | **Wedi'i roi ar waith** – Gweler paragraff 45. |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Mae **Arddangosyn 5** yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio.

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion 2024 (Newydd)** | | | | |
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynorthwyo aelodau'r Bwrdd i ffurfio barn strategol ynglŷn ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau gofal sylfaenol ar y cyfan a pha un a yw camau gweithredu'r sefydliad yn y maes hwn yn gwella cynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy trwy wella'r sylw a roddir i faterion gofal sylfaenol yn ei Adroddiad Blynyddol rheolaidd. | Bydd Dangosfwrdd Gofal Sylfaenol yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2025.<br><br>Mae'r gofyniad i ehangu'r sylw a roddir i faterion gofal sylfaenol yn Adroddiad Blynyddol BIPCTM ar gyfer 2024-2025 a'r tu hwnt wedi cael ei gynnwys yn y blaengynllun ar gyfer datblygu'r Adroddiad Blynyddol. | 31 Ionawr 2025<br><br>30 Medi 2025<br>Nid ydym wedi cael Graddfeydd Amser ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2024-2025 gan Lywodraeth Cymru eto; serch hynny, disgwylir y bydd Adroddiad Blynyddol BIPCTM 2024-2025 yn cael ei gyhoeddi'n ddim hwyrach na 30 Medi 2025. | Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Grŵp Gofal Sylfaenol a Chymunedol<br><br>Cynllunio Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol – Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd<br>Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol - Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Grŵp Gofal Sylfaenol a Chymunedol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro pa bwyllgor yn y strwythur pwyllgorau newydd a gyflwynir ym mis Ionawr 2025 fydd yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch trefniadau'r sefydliad ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, ar ôl diddymu Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau ar ddiwedd mis Rhagfyr 2024. | Os yw'r mater gofal sylfaenol yn ymwneud â hysbysu'r Bwrdd o ran prosesau penderfynu strategol gyda ffocws o 18 mis a'r tu hwnt yna bydd yn cael ei ystyried yn y Pwyllgor Datblygu Strategol.<br><br>Os yw'r mater gofal sylfaenol yn ymwneud â pherfformiad a gweithgarwch cyflawni yn ystod y flwyddyn yna bydd yn cael ei ystyried yn y Pwyllgor Cyflawni Gweithredol.<br><br>Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar y cyd â'r Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac IMAD a'r Prif Swyddog Gweithredu yn hysbysu'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol ynghylch unrhyw eitemau ar gyfer cynllunio agendâu'r Pwyllgorau hyn. Bydd y Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn cyfeirio at y gofyniad i'w ystyried yng nghyfarfodydd cynllunio agendâu.<br><br>Bydd rhaglenni Datblygu'r Bwrdd hefyd yn cael eu defnyddio i rannu cynnydd a gwella gwelededd. | **Wedi'i gwblhau –** gan bod eglurder wedi cael ei ddarparu yn ymateb y rheolwyr ac y bydd yn rhan o fusnes fel arfer o ran rheoli busnes trwy Bwyllgorau'r Bwrdd. | Proses Rheoli Busnes y Bwrdd a Phwyllgorau – Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd<br>Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol/ Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac IMAD a'r Prif Swyddog Gweithredu |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion 2018 (Agored)** | | | | |
| A2 | Er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo symud adnoddau o leoliadau eilaidd i rai sylfaenol a chymunedol, ni all ddangos bod y newid hwn yn digwydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) cyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ei fuddsoddiad a'i ddefnydd o adnoddau ar hyn o bryd mewn gofal sylfaenol a chymunedol; a<br>b) adolygu ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac adrodd arno, o leiaf yn flynyddol, i asesu'r cynnydd ers y llinell sylfaen ac i fonitro i ba raddau y mae'n llwyddo i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. | a) Gellir cael llinell sylfaen yn seiliedig ar y gyllideb a'r adnoddau a ddyrennir ar hyn o bryd i'r Grŵp Gofal Sylfaenol a Chymunedol.<br>b) Bydd yr adolygiad a'r adroddiad hwn yn rhan o'r Cynllun Trawsnewid Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac yn cyd-fynd â'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt. Y nod yw hwyluso'r broses o symud gwasanaethau ond hefyd yr adnodd o ofal eilaidd i mewn i Wasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol. | 31 Ionawr 2025<br>31 Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gofal Sylfaenol a Chymunedol<br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gofal Sylfaenol a Chymunedol |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr** Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau** Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Argymhellion 2018 (Agored)** | | | | |
| A3 | Mae gallu'r Bwrdd Iechyd i gynllunio'r gweithlu'n cael ei rwystro gan y ffaith mai cyfyngedig yw'r data sydd ganddo am nifer a sgiliau'r staff sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol, yn enwedig deintyddiaeth, optometreg a fferylliaeth gymunedol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu i sicrhau ei fod yn cael gwybodaeth safonedig, gynhwysfawr, reolaidd am nifer a sgiliau'r staff, o bob proffesiwn, sy'n gweithio ym mhob lleoliad gofal sylfaenol. | Mae gan y Bwrdd Iechyd Academi Gofal Sylfaenol a bydd cynllunio'r gweithlu'n gylch gwaith hanfodol ar gyfer hyn. Bydd hyn yn un o'r amcanion ar gyfer y cyfnod o 2025-26 ymlaen. | 31 Gorffennaf 2025 | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gofal Sylfaenol a Chymunedol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Argymhellion 2018 (Agored)** | | | | |
| A4 | Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau tuag at roi rhai ffyrdd newydd o weithio ar waith, mae angen rhagor o gynnydd i werthuso effeithiolrwydd y modelau newydd hyn ac i brif ffrydio'r cyllid ar eu cyfer. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) gweithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol ar gyfer gwerthuso ffyrdd newydd o weithio, i ddarparu tystiolaeth o ddeilliannau buddiol a goleuo penderfyniadau ynglŷn ag ehangu'r modelau hyn neu beidio;<br>b) gweithio'n ganolog i goladu gwerthusiadau o ffyrdd newydd o weithio a rhannu'r gwersi trwy roi cyhoeddusrwydd i'r negeseuon allweddol ar draws yr holl glystyrau;<br>c) gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn enwedig pwyntiau cyswllt cyntaf amgen newydd mewn gofal sylfaenol sydd â'r potensial i leihau'r galw am apwyntiadau gyda meddygon teulu; a | a) Mae templed gwerthuso wedi cael ei gyflwyno i glystyrau ei ddefnyddio i ddangos deilliannau ac ategu buddsoddiad parhaus. Wedi'i roi ar waith.<br><br>b) Mae'r strwythur clystyrau bellach o dan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a bydd yr holl werthusiadau'n cael eu cyflwyno i un strwythur rheoli a llywodraethu. Yn chwarterol, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol i oleuo datblygiadau strategol ehangach. Mae'r cyfarfodydd cydweithredol a chlwstwr i gyd yn eu lle ac wedi achub ar y cyfle i rannu gwersi o gynlluniau. | Mawrth 2025<br><br>Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gofal Sylfaenol a Chymunedol<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gofal Sylfaenol a Chymunedol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion 2018 (Agored)** | | | | |
| | d) gwerthuso effeithiolrwydd rôl newydd swyddog cyfathrebu gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd a rhannu'r gwersi gyda'r holl fyrddau iechyd yng Nghymru | c) Ceir rhaglen weithredol gyda Thîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd i hyrwyddo'r ffyrdd newydd o weithio a rolau o fewn y model gofal sylfaenol i Gymru. Mae practisiau hefyd yn gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo a thrafod eu mentrau clwstwr gyda'u grwpiau cyfranogiad cleifion yn ogystal â hysbysebu gwasanaethau ac adborth arall trwy eu gwefannau.<br><br>d) Nid yw rôl y Swyddog Cyfathrebu Gofal Sylfaenol yn bodoli mwyach ac fe wnaed penderfyniad i fabwysiadu dull mwy holistaidd ar draws Gofal Sylfaenol i achub ar gyfleoedd â blaenoriaethau gwahanol yn ystod y flwyddyn. | Rhagfyr 2024<br><br>Mawrth 2024 | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gofal Sylfaenol a Chymunedol<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gofal Sylfaenol a Chymunedol/ Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Chodi Arian |
| A5 | Canfuom amrywiad yn aeddfedrwydd clystyrau gofal sylfaenol, a chyfle i wella aelodaeth ac arweinyddiaeth clystyrau. Dylai'r Bwrdd Iechyd: | | | |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i’r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi’u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion 2018 (Agored)** | | | | |
| | a) adolygu aeddfedrwydd perthynol clystyrau, i ddatblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth i glystyrau lle y bo angen. | a) Bydd gan bob JPB rôl i adolygu a datblygu aeddfedrwydd y clystyrau ac i gyflwyno adroddiadau i’r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol. | 31 Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gofal Sylfaenol a Chymunedol |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.